Dweud y Gwir neu Gelwydd Golau

Cysyniadau: **Gwrthdrawiad, gonestrwydd, meddwl am eraill.**

Amcan: **Gwahaniaethu rhwng beth sy'n wir a dweud y gwir.**

Cyfarpar: **Cap a sgarff, llyfr.**

Cyflwyniad:

● Ar y bwrdd mae cap hud a sgarff hud. Pwy bynnag fydd yn gwisgo'r cap bydd ef neu hi bob amser yn dweud y gwir a phwy bynnag fydd yn gwisgo'r sgarff bydd ef neu hi, bob amser, yn dweud celwydd.

● Rhoi llyfr ar y bwrdd. Gofyn i un plentyn wisgo'r cap fydd yn ei alluogi bob amser i ddweud y gwir a'r plentyn arall i wisgo'r sgarff fydd yn ei alluogi bob amser i ddweud celwydd. Gofyn i'r ddau beth sydd ar y bwrdd. Bydd y plentyn efo'r cap yn dweud bod llyfr ar y bwrdd ond bydd y llall, efo'r sgarff, yn dweud rhywbeth arall. Dyma rai atebion gefais wrth arwain gwasanaeth gyda phlant 9–11 oed: beic, esgid bêl-droed, pry cop a buwch!

● Cwestiwn:
Oedd y plentyn cyntaf yn dweud y gwir a'r llall yn dweud celwydd?

● Beth ydi 'dweud y gwir'?

● Beth ydi 'celwydd'?

● Ydi dweud y gwir 'run fath neu'n wahanol i 'ddweud beth sy'n wir'?

● Ydi dweud celwydd 'run fath neu'n wahanol i 'ddweud beth sydd

ddim yn wir'?

Trafodaeth bellach:

● Mae eich nain wedi prynu bag ysgol i chi ar eich pen-blwydd. Ond dydych chi ddim yn rhy hoff ohono. Mae hi'n gofyn, 'Wel, beth wyt ti'n feddwl o'r bag? Wyt ti'n hoffi'r bag?' Os ydych chi'n gwisgo'r cap, beth fyddai'ch ateb?

● Mae eich ffrind gorau wedi dwyn ffôn un o blant y dosbarth. Mae'r athro neu'r athrawes yn gofyn pwy sydd wedi dwyn y ffôn. Er eich bod yn gwybod pwy yw'r lleidr, rydych yn penderfynu aros yn ddistaw a dweud dim:

● Os ydych chi'n aros yn ddistaw ydych chi wedi dweud celwydd? Beth mae'r cap yn ei ddweud?

● Ydi'r gwahaniaeth rhwng 'dweud y gwir' a 'dweud celwydd' yn anodd?

● Fedrwch chi ddweud 'celwydd ar ddamwain'?

● Ydi 'dweud y gwir' weithiau yn mynd i dorri calon rhywun arall?

● Oes yna ambell dro pan fo 'dweud celwydd weithiau'n fwy caredig na dweud y gwir'? Meddyliwch am rywun sy'n sâl iawn, iawn. Mae wedi colli ei wallt/ei gwallt oherwydd y driniaeth ac mae'n gofyn i chi, 'Sut ydw i'n edrych?' Beth fyddai eich ateb chi? Ydi 'dweud y gwir' yn mynd i wneud mwy o ddrwg a thorcalon yn y pen draw?

Stori:

Doedd gan Mared ddim llawer o awydd mynd i chwarae efo'i ffrindiau. Er eu bod wedi crefu arni i ddod i'r maes chwarae erbyn chwech o'r gloch gwrthod yn bendant wnaeth Mared. 'Na, mae'n well i mi aros adref, mi fydd ... ' a dyna lle roedd hi'n meddwl am esgus, 'mi fydd fy mrawd bach eisiau i mi ei helpu efo'i symiau ac mi

fydd Dad angen help i wneud swper ac ... ' roedd hi'n rhedeg allan o esgusodion erbyn hyn.

Ond y gwir plaen oedd bod ei mam yn dod adref o'r ysbyty. Roedd hi wedi bod yn sâl ac felly roedd Mared yn awyddus iawn i weld ei mam ac i fod gyda hi.

Pan gyrhaeddodd adref o'r ysgol dyna lle roedd ei mam yn lled-orwedd ar y soffa. Roedd hi'n edrych yn welw. Rhedodd Mared ati a'i chofleidio'n dynn. Dechreuodd ei mam wylo'n hidl. 'Peidiwch â chrio Mam,' meddai Mared yn dyner, 'mi ydw i yn mynd i ofalu amdanoch chi. Mi fyddwch wedi gwella ymhen dim.'

Ar ôl ysbaid o ddistawrwydd gofynnodd ei mam, 'Mared, wyt ti'n meddwl mod i wedi colli pwysau?'

Doedd Mared ddim yn gwybod sut i'w hateb. Beth fedrai hi ei ddweud?

'Dydych chi ddim wedi colli pwysau o gwbl ac mi ydych chi'n edrych yn dda. Wir yr rŵan mam.'

Cododd ei mam oddi ar y soffa ac aeth yn syth i'w hystafell wely.

Arhosodd Mared ar y soffa i hel meddyliau. Tybed oedd hi wedi gwneud mwy o ddrwg?

Trafodaeth bellach:

- Tybed oedd ei mam wedi rhoi Mared mewn lle anodd?
- Pam aeth mam Mared i'w hystafell wely?
- Sut fyddech chi wedi ymateb i gwestiwn y fam?

Dyfyniad o'r Beibl:

Mae geiriau gwir yn aros bob amser,
ond celwydd, mae wedi mynd mewn chwinciad.

Diarhebion 12:19 beibl.net

Munud i feddwl:
Tri pheth na ellir ei guddio – yr haul, y lleuad a dweud y gwir.

Buddha

Os ydych chi'n dweud y gwir does dim rhaid i chi gofio'r manylion.

Mark Twain

Mae'n anodd credu'r celwyddog hyd yn oed os ydi o'n dweud y gwir.

Aesop

Emyn: Crea ynof galon lân: Canu Clod 83

Myfyrdod/Gweddi:
Mae hi'n anodd iawn dweud y gwir bob tro. Ond os y bydda i'n methu wnei di fy helpu ac os y bydda i'n teimlo bod dweud celwyddau'n fwy caredig wnei di fy helpu i ddewis yn ddoeth? Diolch. Amen.